GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) 2020

1. Ar 22 Mehefin 2021, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 32, 33 a 35 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill Orchymyn y bydd ei effaith gyffredinol fel y disgrifir isod:
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 28 Mehefin 2021 neu ar y dyddiadau y noda'r arwyddion a'r marciau ffordd ac fe'i gelwir yn "Orchymyn Gyngor Bro Morgannwg (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) 2020"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau'n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa arferol.
4. Os ydych am gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu'r darpariaethau yno ar y sail nad ydynt o fewn y pwerau a roddwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail bod unrhyw ofyniad o'r un fath neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw offeryn a wnaed o dano, mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch o fewn chwe wythnos i 28 Mehefin 2021 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Gorfodi Sifil) (Diwygio) 2013

ATODLEN

Bydd y Meysydd Parcio canlynol yn cael eu tynnu o Atodlen 2 (Mannau Parcio am ddim) a'u gosod Atodlen 1 (Mannau Parcio â Thâl)

Maes Parcio Neuadd y Dref, Y Bont-faen
Maes Parcio Wyndham Street, Y Barri

Yn ogystal, caiff y meysydd parcio canlynol eu gosod yn Atodlen 1 (Meysydd Parcio â Thâl)

Parc Gwledig Cosmeston
Parc Gwledig Porthceri

Dyddiad: 24 Mehefin 2021.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau,
Gwenfô CF5 6AA

ATODLEN
Mannau Parcio Â Thâl

Dosbarthiadau cerbydau

1. Cerbydau pobl anabl
2. Ceir
3. Bysus/Coetsis
4. Beic modur

Meysydd Parcio Canol Trefi

Enw'r Man Parcio	Dosbarth y Cerbyd	Diwrnodau ac Oriau Gweithredu'r Man Parcio	Uchafswm y Cyfnod y Gall Cerbyd Aros	Graddfa Gostau Arfaethedig ar gyfer y Man Parcio
Wyndham Street, y Barri	1, 2 a 4 3 drwy drefniant yn unig	08:00 – 18:00 Llun - Sad	15 awr	Hyd at 2 awr – am ddim Hyd at 4 awr - £2 Drwy'r dydd – £6 Anabl – AM DDIM Beic Modur – AM DDIM
Sgwâr Neuadd y Dref, y Bont-faen	1, 2 a 4 3 drwy drefniant yn unig	08:00 – 18:00 Llun - Sad	15 awr	Hyd at 2 awr – am ddim Hyd at 4 awr - £2 Drwy'r dydd – £6 Anabl – AM DDIM Beic Modur – AM DDIM

Meysydd Parcio Parciau Gwledig

Enw'r Man Parcio	Dosbarth y Cerbyd	Oriau a Dyddiau Gweithredu'r Man Parcio	Uchafswm y Cyfnod y Gall Cerbyd Aros	Graddfa Gostau Arfaethedig ar gyfer y Man Parcio	Cynigiwyd Trwyddedau (yn benodol i'r cerbyd)
Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston	1, 2 a 4 3 drwy drefniant yn unig	10:00 – 20:00 bob dydd O 1 Mawrth tan 30 Medi 10:00 – 17:00 bob dydd O 1 Hydref - diwedd mis Chwefror	15 awr	Hyd at 2 awr - £1 Hyd at 4 awr - £2 Drwy'r dydd – £4 Bysus/coetsis – £30 Anabl – AM DDIM Beic Modur – AM DDIM	6 mis – £30 12 mis – £50
Parc Gwledig Porthceri	1, 2 a 4 3 drwy drefniant yn unig	10:00 – 20:00 bob dydd O 1 Mawrth tan 30 Medi 10:00 – 17:00 bob dydd O 1 Hydref - diwedd mis Chwefror	15 awr	Hyd at 2 awr - £1 Hyd at 4 awr - £2 Drwy'r dydd – £4 Bysus/coetsis – £30 Anabl – AM DDIM Beic Modur – AM DDIM	6 mis – £30 12 mis – £50